Ofcom

sicrhau bod cyfathrebiadau'n
**gweithio i bawb**

# Cyfryngau'r Genedl: **Cymru 2021**



Cyhoeddwyd Awst 5 2021

# Cynnwys

## Adran


Trosolwg ..... 3

Dyfeisiau a gwasanaethau teledu ..... 5

Tueddiadau gwylio teledu ..... 9

Rhaglenni teledu i Gymru ac o Gymru ..... 26

Radio a sain ..... 39

# Trosolwg

Mae'r adroddiad *Cyfryngau'r Genedl: Cymru* hwn yn adolygu'r prif batrymau yn y sector teledu a chlyweled yn ogystal â'r diwydiant sain yng Nghymru.

Mae'r adroddiad yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am nifer o setiau data, gan gynnwys data wedi'i gywain yn uniongyrchol gan ddarlledwyr teledu a radio trwyddedig (ar gyfer allbwn, gwariant a refeniw yn 2020), ynghyd â data BARB ac ymchwil defnyddwyr Ofcom (ar gyfer defnydd cynulleidfa).

Oherwydd y pandemig Covid, nid oedd rhai o'r ffynonellau data arferol – RAJAR (gwrando ar y radio) a'r Traciwr Darlledu Gwasanaeth Cyhoeddus (barn cynulleidfaoedd) ar gael eleni.

Yn ogystal â'r adroddiad yma am Gymru, mae adroddiadau ar wahân ar gyfer y DU drwyddi draw, yr Alban, a Gogledd Iwerddon, yn ogystal ag adroddiad data rhyngweithiol.

## Pwyntiau allweddol

### Dyfeisiau a gwasanaethau teledu

- Roedd gan bron i hanner y cartrefi yng Nghymru (46%) wasanaethau teledu cebl neu loeren y mae'n rhaid talu amdanynt gan Sky a Virgin Media yn Ch3 2020.
- Mae gan dros hanner y cartrefi yng Nghymru (59%) wasanaeth tanysgrifio fideo ar-alw (SVoD) gan gwmnïau fel Netflix, Amazon, Disney+ a Now TV.
- Netflix yw'r mwyaf o hyd, gyda dros hanner (53%) y cartrefi yn tanysgrifio, wedi'i ddilyn gan Amazon Prime Video (33%) a Disney+ (15%).
- BBC iPlayer yw'r chwaraewr gwasanaeth fideo ar-alw darlledwyr (BVoD) mwyaf poblogaidd yng Nghymru; roedd yn cael ei wylio ym mron i ddwy ran o dair o gartrefi (64%) yn nechrau 2021. ITV Hub (54%) oedd y chwaraewr gwasanaeth fideo ar-alw darlledwr mwyaf poblogaidd nesaf, ac wedyn All4 (44%) a My5 (30%).

## Gwylio teledu wedi'i ddarlledu

- Treuliodd pobl Cymru 5 awr 6 munud y dydd ar gyfartaledd yn gwylio rhywbeth ar sgrin deledu yn 2020, a oedd 40 munud yn fwy nag yn 2019.
- Yn 2020, fe aeth gwylio teledu wedi'i ddarlledu yng Nghymru  yn groes i'r duedd hirdymor o ddirywiad a chynyddodd am y tro cyntaf ers 2012.
- Ar gyfartaledd, gwyliodd pobl Cymru 3 awr a 29 munud o deledu wedi'i ddarlledu ar set deledu bob dydd yn 2020, yr ail uchaf o blith yr holl wledydd (y tu ôl i'r Alban) a chynnydd o 8 munud ers 2019.
- Yn yr wythnos yn dechrau 23 Mawrth, pan wnaeth Prif Weinidog y DU gyhoeddi'r cyfnod clo cyntaf, fe wnaeth lefelau gwylio teledu wedi'i ddarlledu ar gyfartaledd bob dydd gyrraedd lefel uchaf o 3 awr 58 munud yng Nghymru.
- Fe wnaeth y lefelau gwylio ostwng wrth i'r cyfyngiadau symud lacio, ond wrth i gyfyngiadau symud cenedlaethol ddod i rym eto o fis Hydref ymlaen, fe wnaeth y nifer a oedd yn gwylio godi i ail uchafbwynt ym mis Rhagfyr, wrth i bobl Cymru dreulio'r rhan fwyaf o'r gwyliau gartref.
- Mae pobl hŷn yng Nghymru yn dal i wylio mwy o deledu wedi'i ddarlledu na gwylwyr iau. Roedd y rheini sy'n 55 oed a hŷn yn gwylio 5 awr 59 munud y dydd ar gyfartaledd yn 2020, i fyny 7% o'i gymharu â 2019, tra doedd y rheini sydd rhwng 16 a 24 oed ddim ond yn gwylio 64 munud o deledu wedi'i ddarlledu bob dydd, 3% yn fwy na 2019.

## Gwariant ar raglenni teledu i Gymru ac o Gymru

- Roedd gostyngiad 22% yn y gwariant ar gynnwys sy'n cael ei ddangos am y tro cyntaf i wylwyr yng Nghymru yn 2020, gyda'r gwariant ar raglenni nad ydynt yn newyddion/materion cyfoes yn gostwng y mwyaf sef 30%. Mae rhaglenni nad ydynt yn newyddion/materion cyfoes yn cyfrif am y gyfran fwyaf o wariant sy'n cael ei ddangos am y tro cyntaf (50%) yng Nghymru.
- Roedd oriau'r BBC o gynnwys sy'n cael ei ddangos am y tro cyntaf yng Nghymru wedi gostwng 2% yn 2020 i 616 awr. Yn gyffredinol, cynnwys newyddion yw'r rhan fwyaf o allbwn y BBC i Gymru, sef 61% o'r oriau sy'n cael eu dangos am y tro cyntaf.
- 7.5% o'r gwariant rhwydwaith cymwys ar sianeli darlledu gwasanaeth cyhoeddus a gafodd ei wario ar gynyrchiadau yng Nghymru yn 2020.

## Radio a sain

- Mae wyth oedolyn o bob deg yng Nghymru yn gwrando ar y radio bob wythnos.
- Mae gan bron i chwech o bob deg o'r cartrefi yng Nghymru seinyddion clyfar (57%). Yr Amazon Echo yw'r math mwyaf poblogaidd o bell ffordd (a welir mewn 72% o gartrefi Cymru sydd â seinydd clyfar).
- Y ceisiadau mwyaf poblogaidd ymysg defnyddwyr oedd chwarae cerddoriaeth drwy wasanaeth ffrydio, fel ar Spotify (70%), neu wrando ar orsaf radio fyw ( 61%).
- Roedd yn flwyddyn heriol i'r sector radio masnachol. Gostyngodd refeniw radio y pen yng Nghymru 29% yn 2020 i £3.92, yr isaf yng ngwledydd y DU.

# Dyfeisiau a gwasanaethau teledu

## Cyflwyniad

Llwyfannau teledu hirsefydlog fel Freeview, sydd ar gael drwy deledu daearol digidol (DTT), lloeren (naill ai gan Sky neu Freesat) a chebl (Virgin Media) yw'r prif sianeli ar gyfer darparu gwasanaethau adloniant i gartrefi pobl.

Mae'r llwyfannau hyn yn dibynnu ar wahanol fathau o seilwaith i ddarparu eu gwasanaethau. Mae Freeview yn defnyddio rhwydwaith o drosglwyddyddion ledled Cymru i ddarparu gwasanaethau teledu i gartrefi pobl drwy erial ar ben y to. Mae'r gwasanaethau hyn ar gael yn eang, ond ddim i bawb ledled Cymru. Mae lloeren ar gael yn gyffredinol[1] ond dim ond mewn ardaloedd trefol adeiledig y mae darpariaeth cebl ar gael yn bennaf.

Fodd bynnag, prif dueddiad y blynyddoedd diwethaf fu'r cynnydd cyflym mewn gwasanaethau tanysgrifio i fideo ar-alw newydd fel Netflix, Amazon Prime Video, a Disney+, a pharhaodd hyn drwy 2020.

Er bod y gwasanaethau tanysgrifio i fideo ar-alw hyn fel rheol yn cael eu prynu yn ychwanegol at lwyfannau eraill, maent yn tarfu'n sylweddol ar y sector, gan ennill cyfran gwylio ac effeithio ar sut a phryd mae pobl yn gwylio cynnwys tebyg i deledu.

Mae darlledwyr gwasanaethau cyhoeddus traddodiadol hefyd yn addasu sut maent yn darparu cynnwys i wylwyr. Ochr yn ochr â'u gwasanaethau teledu llinol, mae gan y BBC, ITV, Channel 4, S4C a Channel 5 eu gwasanaethau fideo ar-alw darlledwr eu hunain. Mae'r gwasanaethau fideo ar-alw hyn drwy danysgrifiad a gan ddarlledwyr yn cael eu darparu dros y rhyngrwyd a drwy setiau teledu cysylltiedig yn ogystal ag ar ffonau symudol, llechi a chyfrifiaduron.

## Llwyfannau teledu traddodiadol

**Mae mwy o gartrefi yng Nghymru yn defnyddio gwasanaeth teledu drwy dalu nag yn dibynnu ar Freeview neu Freesat**

Mae setiau teledu wedi hen ennill eu lle yn ein cartrefi; roedd gan fwy na naw aelwyd o bob deg yng Nghymru (97%) set deledu yn 2020.[2] Ond mae'r gwasanaethau sy'n cael eu defnyddio ar ein setiau teledu yn newid, yn bennaf oherwydd faint o gynnwys sy'n cael ei ddarparu a'r modd mae cael gafael arno drwy'r rhyngrwyd.

Roedd gwasanaethau teledu traddodiadol y telir amdanynt fel lloeren (Sky yn bennaf) a gwasanaethau cebl (Virgin Media) yn bresennol mewn ychydig llai na hanner cartrefi Cymru (46%) yn 2020. Mae lloeren y telir amdano yn cynrychioli'r rhan fwyaf o'r rhain, gyda gwasanaeth cebl Virgin Media yn bresennol mewn dim ond 10% o gartrefi Cymru yn Ch3 2020, i fyny o 7% yn Ch1.


Gwasanaethau teledu daearol digidol yn unig (a ddarperir drwy erial) sy'n cynrychioli'r rhan fwyaf o wylio teledu am ddim (35%) gyda lloeren am ddim yn bresennol mewn dim ond 8% o gartrefi, drwy

[1] Gan ddibynnu a oes llwybr llinell welediad ar gael i'r lloeren
[2] Arolwg Sefydliad BARB Ch3 2020.

Freesat yn fwyaf tebyg. Roedd gan bedwar deg tri y cant o gartrefi deledu daearol digidol neu loeren am ddim yn unig.

Dim ond cyfran fach o gartrefi yng Nghymru (7%) oedd â gwasanaeth teledu protocol rhyngrwyd (IPTV). Caiff y rhain eu darparu drwy flychau pen-set gan ddarparwyr gan gynnwys TalkTalk a BT, ac maent yn cynnig gwasanaeth Freeview ochr yn ochr â sianeli teledu drwy dalu sy’n cael eu darparu drwy gysylltiad rhyngrwyd.

**Ffigur 1: Defnydd o lwyfannau teledu yng Nghymru**




*Ffynhonnell: Arolwg Sefydlu BARB Ch3 2020*

# Fideo ar-alw drwy danysgrifio

Yn yr un modd â gwledydd eraill y DU, mae’r nifer sy’n tanysgrifio i wasanaethau fideo ar-alw (SVoD) gan ddarparwyr fel Netflix, Amazon Prime Video a Disney+ a ddarperir dros y rhyngrwyd, yn dal i godi’n gyflym ymysg cartrefi yng Nghymru.

Roedd gan dros naw o bob deg (93%) cartref yng Nghymru gysylltiad â’r rhyngrwyd ar ddechrau 2021 (82% o gartrefi â band eang sefydlog).

Mae cyfuniad o ffactorau wedi gwneud 2020 yn flwyddyn bwysig i wasanaethau fideo ar-alw drwy danysgrifio (SVoD), yn y DU ac yn rhyngwladol; mae cyfanswm y tanysgrifiadau SVoD yn fyd-eang wedi cynyddu 300 miliwn, gan basio’r trothwy o un biliwn i gyrraedd 1.18 biliwn.

## Disney+ yw’r trydydd gwasanaeth fideo ar-alw drwy danysgrifio mwyaf poblogaidd yng Nghymru

Yng Nghymru, mae gwasanaethau fideo ar-alw drwy danysgrifio (SVoD) wedi gweld cynnydd yn 2020, gyda 59% o gartrefi yn tanysgrifio i o leiaf un ohonynt. Netflix yw’r mwyaf o hyd; gyda dros hanner (53%) y cartrefi yn tanysgrifio, wedi’i ddilyn gan Amazon Prime Video (33%) a Disney+ (15%).

**Ffigur 2: Defnydd o wasanaethau fideo ar-alw drwy danysgrifio yng Nghymru (% o gartrefi)**





*Ffynhonnell: Arolwg Sefydlu BARB Ch3 2020*

## Fideo ar-alw drwy ddarlledwr

### BBC iPlayer yw'r gwasanaeth darlledu cyhoeddus mwyaf poblogaidd ymysg gwylwyr yng Nghymru

Mae gan ddarlledwyr mawr – y BBC, ITV, Channel 4, S4C a Channel 5 – eu chwaraewyr ar-lein eu hunain. Mae chwaraewyr fideo ar-alw y darlledwyr hyn hefyd yn boblogaidd ymysg gwylwyr. Cafodd y mwyaf poblogaidd, BBC iPlayer, ei wylio gan dros chwech o bob deg o gartrefi Cymru (64%) ddechrau 2021. ITV Hub (54%) yw'r chwaraewr gwasanaeth fideo ar-alw darlledwr mwyaf poblogaidd nesaf, ac wedyn All4 (44%) a My5 (30%).

**Ffigur 3: Defnydd o wasanaethau fideo ar-alw'r prif ddarlledwyr yng Nghymru (cartrefi)**




*Ffynhonnell: Traciwr Technoleg Ofcom 2021*

## Mae pedwar o bob deg o gartrefi Cymru'n defnyddio YouTube

Roedd ymchwil a gynhaliwyd ar gyfer adroddiad *Ein Gwlad Ar-lein* 2021 Ofcom[3] yn dangos bod oedolion sy'n defnyddio'r rhyngrwyd yn y DU yn treulio 3 awr 37 munud y dydd ar-lein ar gyfartaledd ar gyfrifiaduron, dyfeisiau tabled a ffonau clyfar yn 2020; naw munud yn fwy nag yn 2019[4].




Ar ben hynny, roedd pobl yn y DU yn treulio 1 awr 21 munud y dydd ar gyfartaledd yn 2020 yn gwylio gwasanaethau ar-lein ar setiau teledu sydd wedi'u cysylltu – boed hynny ar gyfer gwylio fideo ar-alwad, chwarae gemau ar-lein neu wylio YouTube neu TikTok.

Roedd tua phedwar o bob deg o gartrefi (41%) Cymru yn defnyddio YouTube i wylio rhaglenni neu ffilmiau ar ddechrau 2021.[5] Felly, gallai'r ffigur hwn eithrio mathau eraill o gynnwys fel clipiau byr.

[3] https://www.ofcom.org.uk/__data/assets/pdf_file/0014/220415/online-nation-2021-welsh-overview.pdf
[4] Comscore MMX Multi-Platform, Cyfanswm – Rhyngrwyd, Oedolion 18 oed a hŷn, cyfartaledd misol 2019 a 2020, y DU.
[5] Traciwr Technoleg 2021 Ofcom

# Tueddiadau gwylio teledu

## Arweiniodd y pandemig at gynnydd ym mhob math o wylio teledu yng Nghymru


Fe wnaeth cyfyngiadau symud y Llywodraeth mewn ymateb i Covid-19 effeithio ar bob agwedd ar y sector darlledu yng Nghymru yn 2020. Wrth i'r cyhoedd aros gartref, fe wnaethon nhw droi at eu teledu i gael eu diddanu ac i gael yr wybodaeth ddiweddaraf am y pandemig.

Fe wnaeth cyfanswm y gwylio ar y sgrin deledu yng Nghymru gynyddu 40 munud o'i gymharu â 2019, gyda chyfartaledd o 5 awr 6 munud y pen y dydd. Roedd y rhan fwyaf o'r amser hwn yn dal i gael ei dreulio yn gwylio teledu wedi'i ddarlledu (3 awr 29 munud), ac fe wnaeth y gwylio gynyddu 8 munud o'i gymharu â 2019. Fe wnaeth y cynnydd hwn wrthdroi tuedd hirdymor o ddirywiad parhaus mewn gwylio teledu wedi'i ddarlledu a gellir ei briodoli'n bennaf i'r pandemig.

Fodd bynnag, fe wnaeth llawer o'r cynnydd yng nghyfanswm y gwylio ddod o wasanaethau nad ydynt yn cael eu darlledu ar y set deledu (sy'n cael eu disgrifio fel 'anhysbys' gan yr asiantaeth mesur teledu BARB ac sy'n cynnwys YouTube, gemau, a gwasanaethau ffrydio fel Netflix ac Amazon Prime), a oedd wedi cynyddu 50% ers 2019 i 1 awr 26 munud.

Ac eto, er gwaethaf y cynnydd yng nghyfanswm yr amser gwylio teledu wedi'i ddarlledu yn 2020, roedd cyfran y bobl sy'n gwylio teledu wedi'i ddarlledu ar gyfartaledd mewn wythnos (cyrhaeddiad wythnosol cyfartalog[6]) yn dal yn is na lefelau 2019 ar gyfer pob mis yn 2020. Roedd y cyrhaeddiad wythnosol cyfartalog ar gyfer yr holl deledu wedi'i ddarlledu a oedd yn cael ei fesur yng Nghymru yn 84.5% yn 2020, o'i gymharu ag 86.1% yn 2019.

**Ffigur 4: Nifer gyfartalog y munudau bob dydd o amser sgrin teledu y pen yng Nghymru**




*Ffynhonnell: BARB. *Gwylio anhysbys = teledu sy'n cael ei ddefnyddio ond nad oes modd ei gysylltu â sain na'i adnabod mewn unrhyw fodd arall. Mae'n cynnwys chwarae gemau, gwylio DVDs, gwasanaethau tanysgrifio fideo ar-alw, YouTube, gwylio'n ddiweddarach ar ôl 28 diwrnod, apiau ar deledu clyfar a llywio o amgylch Cyfeiryddion Rhaglenni Electronig (EPG guides) lle nad oes llun o'r cynnwys sy'n cael ei ddarlledu. Nid yw gorsafoedd radio digidol lle mae'r sain yn cael ei gysylltu wedi'u cynnwys. **Cynnwys darlledwyr eraill = cynnwys sy'n cael ei wylio ar wasanaethau fideo ar-alw darlledwyr a gwasanaethau fideo ar-alw sy'n cael eu*

[6] Meini prawf cyrhaeddiad ar gyfer yr holl deledu wedi'i ddarlledu: 15+ munud yn olynol.

*mesur nad yw wedi cael ei ddarlledu ar sianeli teledu llinol. Er enghraifft, rhaglenni sydd ar gael ar wasanaeth fideo ar-alw darlledwr yn unig a chyfresi hanesyddol. Nodyn: cafodd hyn ei gynnwys mewn gwylio anhysbys yn adroddiadau blaenorol Ofcom.*

## Roedd y tueddiadau gwylio teledu yn ystod y flwyddyn yn adlewyrchu'r cyfyngiadau Covid-19 i raddau helaeth


Roedd y ffigurau gwylio o ddiwedd mis Mawrth 2020 ymlaen yn adlewyrchu ymddygiad newidiol gwylwyr wrth i'r wlad symud drwy'r pandemig.

Yn yr wythnos yn dechrau 23 Mawrth, pan wnaeth Prif Weinidog y DU gyhoeddi'r cyfnod clo cyntaf, fe wnaeth lefelau gwylio teledu wedi'i ddarlledu ar gyfartaledd bob dydd gyrraedd lefel uchaf o 3 awr 58 munud yng Nghymru.

Fe wnaeth y lefelau gwylio aros yn gymharol uchel drwy gydol mis Ebrill (i fyny 22% o gymharu â mis Ebrill 2019), ond fe wnaethon nhw ostwng wrth i'r cyfyngiadau symud lacio ac wrth i'r nifer oedd yn gwylio rhaglenni newyddion leihau. Fodd bynnag, ar wahân i fis Medi, roedd lefelau gwylio teledu wedi'i ddarlledu yn uwch ym mhob mis yn 2020 nag yn 2019. Wrth i gyfyngiadau symud cenedlaethol ddod i rym eto o fis Hydref ymlaen, fe wnaeth y nifer a oedd yn gwylio godi i ail uchafbwynt ym mis Rhagfyr, wrth i bobl Cymru dreulio'r rhan fwyaf o'r gwyliau gartref. Ym mis Ionawr a Chwefror 2021 pan symudodd ysgolion a cholegau i ddysgu ar-lein a phan roedd cyfyngiadau llym eraill ar waith yng Nghymru, roedd y gwylio'n dal yn uchel. Wrth i rai cyfyngiadau gael eu codi, gostyngodd y lefelau gwylio, a oedd yn is na lefelau 2020 a 2019 ym mis Mawrth, mis Ebrill a mis Mai.

Fe wnaeth gwylio anhysbys gadw llawer o'r cynnydd roedd wedi'i gyflawni yn ystod y cyfnod clo cyntaf ac arhosodd yn gyson uwch yn 2020 nag yn 2019. Y rheswm pennaf am hyn oedd poblogrwydd gwasanaethau ffrydio drwy danysgrifio, fel Disney+ a Netflix. Cyrhaeddodd gwylio anhysbys uchafbwynt ym mis Rhagfyr, gyda phobl Cymru yn gwylio 1 awr 51 munud o wylio anhysbys y dydd ar gyfartaledd (i fyny 68% o un flwyddyn i'r llall). Ar ddechrau 2021 roedd gwylio anhysbys yn dal yn uwch nag yn ystod y blynyddoedd blaenorol, tan fis Ebrill, pan roedd yn is na lefel 2020.

**Ffigur 5: Cyfanswm gwylio teledu wedi'i ddarlledu a gwylio anhysbys (munudau y pen bob dydd) yng Nghymru**



*Ffynhonnell: Ffigurau gwylio wedi'i gyfuno 7 diwrnod BARB. Pob unigolyn (dros 4 oed). Ardal BBC Cymru*

### BBC Cymru Wales

Cafodd sesiynau briffio Llywodraeth Cymru yn cyfleu gwybodaeth bwysig i'r cyhoedd eu darlledu'n fyw fel rhan o sylw BBC *Wales Today* ar BBC One Wales. Fe wnaeth gwneuthurwyr rhaglenni dogfen hefyd roi cipolwg unigryw ar hanes y pandemig a sut roedd gwasanaethau cyhoeddus yn ymateb. Roedd *Wales in Lockdown* yn gyfres arbennig a oedd yn cyfleu profiadau cychwynnol o'r cyfyngiadau symud ar draws y wlad. Roedd *Critical: Coronavirus in Intensive Care* yn rhaglen ddogfen bwerus arall, a oedd yn cynnig mynediad unigryw at yr Uned Gofal Dwys yn Ysbyty Brenhinol Gwent yng Nghasnewydd. Fe wnaeth disgyblion a rhieni droi at BBC Bitesize i ategu gwersi rhithiol, a gydag adnoddau i gefnogi cwricwlwm Cymru, datblygwyd gwersi dyddiol dwyieithog ar gyfer plant ysgol Cymru o fis Ionawr ymlaen mewn partneriaeth ag S4C.

### O ble daw ein data

Mae data am wylio sgrin a'r dadansoddiad yn yr adran hon yn defnyddio data sy'n cael ei ddarparu gan Fwrdd Ymchwil Cynulleidfaoedd y Darlledwyr (BARB), panel cynrychioladol cenedlaethol o 5,300 o gartrefi ledled y DU sy'n darparu'r mesuriadau teledu a ddarlledir swyddogol ar gyfer y diwydiant. Mae hyn yn cynnwys yr holl wylio teledu a ddarlledir drwy set deledu, a drwy unrhyw ddyfais sydd ynghlwm wrth y teledu fel cyfrifiadur, dyfais ffrydio neu flwch pen-set.


Oni nodir fel arall, mae'r ffigurau a nodir ar gyfer gwylio wedi'i gyfuno dros saith niwrnod ar set deledu. Mae gwylio wedi'i gyfuno'n cynnwys gwylio rhaglenni ar yr adeg maen nhw'n cael eu darlledu ar y teledu (gwylio byw) yn ogystal ag o recordiadau ar recordwyr fideo digidol (DVRs) a drwy wasanaethau chwaraewyr dal-i-fyny (ee apiau ar setiau teledu clyfar) hyd at saith niwrnod ar ôl y darllediad cyntaf (gwylio'n ddiweddarach).

Mae'r data yn yr adran hon ar gyfer blwyddyn galendr 2020, ac felly maen nhw'n adlewyrchu'r patrymau gwylio gwahanol a ymddangosodd wrth i bobl yn y DU ddelio â'r pandemig Covid-19 a chyfyngiadau cysylltiedig y llywodraeth.

## Yng Nghymru yn 2020, roedd gwylio teledu wedi'i ddarlledu yr ail uchaf o holl wledydd y DU

Ar ôl 3 awr 29 munud, roedd gwylio teledu wedi'i ddarlledu ar y set deledu bob dydd yn 2020 yr ail uchaf o holl wledydd y DU. Fodd bynnag, y cynnydd o un flwyddyn i'r llall mewn gwylio teledu wedi'i ddarlledu a sbardunwyd gan y cyfyngiadau symud oedd y lleiaf ymysg gwledydd y DU, gyda chyfanswm y munudau y dydd ar gyfartaledd yn cynyddu 4.1% rhwng 2019 a 2020, o'i gymharu â chyfartaledd y DU o 5%.

**Ffigur 6: Munudau gwylio cyfartalog y dydd, y pen, fesul gwlad: 2011-2020**





*Ffynhonnell: BARB. Ardaloedd y BBC, pob unigolyn (4+).*

## Gwylwyr hŷn oedd yn gyfrifol am y cynnydd yn y nifer oedd yn gwylio teledu wedi'i ddarlledu yng Nghymru – ond fe wnaeth gwylio anhysbys wedi cynyddu ymysg yr holl grwpiau oedran

Fel yng ngweddill y DU, mae pobl hŷn yng Nghymru yn dal i wylio mwy o deledu wedi'i ddarlledu na gwylwyr iau. Yn 2020, roedd pobl dros 54 oed yn gwylio 5 awr 59 munud o deledu wedi'i ddarlledu y dydd ar gyfartaledd, i fyny 7% o'i gymharu â 2019. Roedd hyn yn gostwng i 3 awr 40 munud ar gyfer y grŵp oedran 45-54, cynnydd o 2% ers 2019. Fodd bynnag, roedd y cynnydd cyfrannol mwyaf mewn gwylio ymysg y grŵp oedran 35-44, a oedd yn gwylio 8% yn fwy o deledu wedi'i ddarlledu yn 2020 nag yn 2019.

**Ffigur 7: Munudau gwylio cyfartalog y dydd, fesul grŵp oedran**




*Ffynhonnell: BARB. Ardaloedd y BBC, pob unigolyn (4+)*

Gwyliodd pobl ifanc yng Nghymru fwy o deledu heb ei ddarlledu ar set deledu na gwylwyr hŷn, er bod y gwylio wedi cynyddu ymysg yr holl grwpiau oedran yn 2020. Roedd plant (4-15 oed) yn gwylio mwy nag unrhyw grŵp oedran arall, 1 awr 58 munud y dydd, i fyny 59% ers 2019. Pobl dros 54 oed oedd yn gwylio'r lleiaf, 50 munud y dydd, er bod lefelau gwylio wedi cynyddu'n sylweddol ymysg y grŵp oedran hwn hefyd, i fyny 52% ers 2019.

Roedd y cynnydd cyfrannol mwyaf mewn gwylio anhysbys ymysg pobl 35-54 oed, gyda gwylio'n cynyddu 66% i 1 awr 36 munud yn 2020. Roedd y cynnydd cyfrannol lleiaf ymysg pobl ifanc 16-34 oed, gyda gwylio anhysbys yn cynyddu 33% o 2019 i 1 awr 52 munud.

I'r gwrthwyneb, gostyngodd gwylio teledu darlledu 15% ymysg pobl ifanc rhwng 25 a 34 oed, gan ostwng i 1 awr 45 munud ar gyfartaledd bob dydd. Roedd pobl ifanc yn dal i wylio llai o deledu wedi'i ddarlledu yn gyffredinol, gyda phlant rhwng 4 a 15 oed yn gwylio 66 munud ar gyfartaledd bob dydd (gostyngiad o 1% ers 2019), a'r rheini rhwng 16 a 24 oed yn gwylio 64 munud (cynnydd o 3% ar 2019).

**Ffigur 8: Nifer gyfartalog y munudau bob dydd o amser gwylio anhysbys y pen yng Nghymru**




*Ffynhonnell: BARB. Ardal BBC Cymru. Gwylio anhysbys = teledu sy'n cael ei ddefnyddio ond nad oes modd ei gysylltu â sain na'i adnabod mewn unrhyw fodd arall. Mae'n cynnwys chwarae gemau, gwylio DVDs, gwasanaethau tanysgrifio fideo ar-alw, YouTube, gwylio'n ddiweddarach ar ôl 28 diwrnod, apiau ar deledu clyfar a llywio o amgylch Cyfeiryddion Rhaglenni Electronig (EPG guides) lle nad oes llun o'r cynnwys sy'n cael ei ddarlledu. Nid yw gorsafoedd radio digidol lle mae'r sain yn cael ei gysylltu wedi'u cynnwys.*

## *I'm a Celebrity... Get Me Out of Here!* oedd y rhaglen deledu a wyliwyd fwyaf yn 2020



I'm a Celebrity... Get Me Out of Here! – a ffilmiwyd yng Nghastell Gwrych yng Nghymru oherwydd y pandemig – oedd y rhaglen a wyliwyd fwyaf yn 2020. Cyrhaeddodd ail bennod y sioe, a ddarlledwyd ar ITV Cymru Wales, gynulleidfa gyfartalog o ychydig dros filiwn.

*Prime Ministerial Statement* ar 10 Mai, lle cyhoeddodd Prif Weinidog y DU fap dros dro ar gyfer llacio'r cyfyngiadau, oedd yr ail raglen deledu a gafodd ei gwylio fwyaf, gyda chynulleidfa o 861,000 ar gyfartaledd. Roedd cyhoeddi'r cyfyngiadau symud ar 23 Mawrth ar un o raglenni Newyddion Arbennig y BBC hefyd yn y pump uchaf, ynghyd ag *An Address by Her Majesty the Queen*.

BBC One ac ITV Cymru Wales fu'n dominyddu'r rhestr gan gymryd y cyfan ond un o'r 20 safle uchaf, yr eithriad oedd *Great British Bake Off* ar Channel 4.

**Ffigur 9: Yr 20 rhaglen a wyliwyd fwyaf yng Nghymru: 2020**

| Safle | Teitl y Rhaglen | Sianel | Dyddiad | Cyfartaledd (miloedd) | Cyfran % |
|---|---|---|---|---|---|
| **1** | I'm a Celebrity... Get Me Out of Here! | ITV Cymru Wales | 16/11/2020 | 1,003 | 56.3 |
| **2** | Prime Ministerial Statement | BBC One | 10/05/2020 | 861 | 58.5 |
| **3** | BBC News Special | BBC One | 23/03/2020 | 820 | 48.0 |
| **4** | An Address by Her Majesty The Queen | BBC One | 05/04/2020 | 709 | 51.9 |
| **5** | Ant and Dec's Saturday Night Takeaway | ITV Cymru Wales | 21/03/2020 | 653 | 53.5 |
| **6** | Six Nations Rugby | BBC One | 01/02/2020 | 644 | 72.2 |
| **7** | BBC Wales Today | BBC One | 10/05/2020 | 641 | 46.7 |
| **8** | Britain's Got Talent | ITV Cymru Wales | 18/04/2020 | 623 | 47.7 |
| **9** | The Salisbury Poisonings | BBC One | 14/06/2020 | 578 | 45.6 |
| **10** | Six Nations Championship | ITV Cymru Wales | 07/03/2020 | 564 | 58.7 |
| **11** | Strictly Come Dancing | BBC One | 14/11/2020 | 558 | 49.5 |
| **12** | Des | ITV Cymru Wales | 14/09/2020 | 557 | 44.2 |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **13** | Vera | ITV Cymru Wales | 12/01/2020 | 552 | 35.1 |
| **14** | Death in Paradise | BBC One | 09/01/2020 | 531 | 39.7 |
| **15** | The Great British Bake Off | Channel 4 | 06/10/2020 | 528 | 37.8 |
| **16** | White House Farm | ITV Cymru Wales | 12/02/2020 | 524 | 38.9 |
| **17** | Silent Witness | BBC One | 27/01/2020 | 523 | 33.2 |
| **18** | Happy New Year Live! | BBC One | 31/12/2020 | 522 | 45.2 |
| **19** | Call The Midwife | BBC One | 23/02/2020 | 517 | 34.2 |
| **20** | Gordon, Gino and Fred: Road Trip | ITV Cymru Wales | 02/04/2020 | 511 | 37.8 |

*Ffynhonnell: BARB. Ardal BBC Cymru, pob unigolyn (4+)*

### Beth yw darlledu gwasanaeth cyhoeddus?


Mae darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn cael ei ddarparu yng Nghymru gan y BBC, ITV (sy’n dal y drwydded Channel 3 yng Nghymru), S4C, Channel 4 Corporation (C4C) a Channel 5. Er bod holl wasanaethau teledu'r BBC ac S4C yn rhai darlledu gwasanaeth cyhoeddus, dim ond prif sianeli'r darlledwyr eraill sydd yn rhai darlledu gwasanaeth cyhoeddus. Yn gyfnewid am ddarparu gwasanaethau darlledu gwasanaeth cyhoeddus fel newyddion a chynyrchiadau gwreiddiol, mae'r darlledwyr hyn yn cael manteision penodol: mynediad i sbectrwm (y tonnau radio gwerthfawr sy'n cynnal cyfathrebu di-wifr) er mwyn darlledu eu gwasanaethau; amlygrwydd ar gyfeiryddion rhaglenni electronig ar deledu; ac, ar gyfer y BBC ac S4C, cyllid o ffi'r drwydded.

## Mae’r pum prif sianel darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn cynrychioli dros hanner o’r cyfanswm gwylio teledu

Gyda'i gilydd roedd y pum prif Ddarlledwr Gwasanaeth Cyhoeddus yng Nghymru yn cynrychioli cyfran o 52.4% o gyfanswm cynulleidfa teledu a gafodd ei ddarlledu yng Nghymru yn 2020, yr uchaf yn y DU. Roedd hyn hefyd yn uwch nag mewn unrhyw wlad arall yn y DU wrth gynnwys sianeli portffolio’r BBC ac S4C – 57.1% yn 2020.

Mae cyfran y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yng Nghymru wedi cynyddu ers 2019, pan roedd gan y pum prif wasanaeth cyhoeddus gyfran o 51.7%. BBC One oedd â'r gyfran uchaf o'r gynulleidfa o blith unrhyw sianel darlledu gwasanaeth cyhoeddus unigol ar 22.7%; roedd hyn yn uwch na chyfran BBC One yn y gwledydd eraill.

**Ffigur 10: Cyfran ganrannol o gyfanswm gwylio teledu yng ngwledydd y DU ar gyfer y pum prif sianel darlledu gwasanaeth cyhoeddus: 2020**




*Ffynhonnell: BARB. Ardaloedd y BBC, pob unigolyn (4+). Nid yw'n cynnwys unrhyw sianeli +1 awr.*

### Adloniant ysgafn


Bu i gwpl a oedd yn byw yn Aber-hosan ym Mhowys gael sylw yn y penawdau ym mis Medi'r llynedd. Bu toriad band eang yn y pentref am 7am bob dydd am y 18 mis diwethaf, ac er gwaethaf sawl ymgais, nid oedd y peirianwyr wedi llwyddo i ddatrys y broblem. Datgelodd ymchwiliad ymchwydd mewn ymyriant trydanol yn y pentref am 7:00 bob dydd a daethpwyd o hyd iddo mewn eiddo yn y pentref. Canfuwyd wedyn bod y cwpl oedrannus wedi bod yn rhoi eu hen set deledu ymlaen ar yr adeg honno bob dydd i wylio Good Morning Britain, gan achosi'r broblem band eang. Cynigiwyd teledu HD newydd i'r cwpl er mwyn iddyn nhw allu parhau i wylio Good Morning Britain.

## Fe wnaeth cyrhaeddiad S4C ostwng yng Nghymru, ond cynyddodd rhywfaint ar draws y DU yn 2020

Fe wnaeth ymgyrhaeddiad y darlledwr Cymraeg S4C yng Nghymru ostwng yn 2020, gyda 293,000 o wylwyr yng Nghymru yn gwylio S4C ar y teledu am o leiaf dri munud yn olynol mewn wythnos arferol. Roedd hynny'n ostyngiad o 4.3% ers 2019.

Ar draws y DU, fodd bynnag, fe wnaeth ymgyrhaeddiad y sianel gynyddu 2%, gydag ychydig dros hanner miliwn o wylwyr yn gwylio S4C mewn wythnos arferol.

**Ffigur 11: Cyrhaeddiad wythnosol cyfartalog (000s) S4C, unigolion: 2010-2020**




*Ffynhonnell: BARB. Unigolion (4+). Cyfanswm ardal S4C a rhwydwaith S4C. Meini prawf cyrhaeddiad: Dros 3 munud yn olynol, defnyddiwyd wythnosau llawn.*

### Sgrin Fach: Trafodaeth Fawr

Mae dyfodol darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn dal yn destun diddordeb cyhoeddus a gwleidyddol yng Nghymru. Mae ymgysylltiad â rhanddeiliaid yn ein rhaglen Sgrin Fach: Trafodaeth Fawr wedi dangos barn gyffredinol bod angen i gynnwys cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus (PSM) a gynhyrchir yng Nghymru ar gyfer cynulleidfaoedd Cymraeg yn y ddwy iaith gael ei ddiogelu a'i wella.

Mae Sgrin Fach: Trafodaeth Fawr eisoes wedi bod yn destun trafodaeth gan Aelodau'r Senedd, aelodau o Bwyllgor Cynghori Cymru Ofcom a darparwyr cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus – S4C, BBC Cymru ac ITV Cymru Wales. Derbyniodd Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu Senedd Cymru dystiolaeth ar Sgrin Fach: Trafodaeth Fawr gan gydweithwyr Ofcom a Chadeirydd Pwyllgor Cynghori Cymru. Mae tîm Ofcom Cymru wedi cynnal amrywiaeth o ddigwyddiadau i gasglu barn rhanddeiliaid yng Nghymru. Roedd dyfodol darlledu gwasanaeth cyhoeddus yng Nghymru yn amlwg mewn sesiynau tystiolaeth gan y darlledwyr i ymchwiliad Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu Senedd Cymru i COVID-19 a'i effaith ar ddiwylliant, y diwydiannau creadigol, treftadaeth, cyfathrebu a chwaraeon.

### Safle S4C ar EPG Virgin yng Nghymru

Cafodd safle S4C ar EPG Virgin yng Nghymru ei newid o 166 i 104 ym mis Ionawr 2021[7], sy'n welliant derbyniol i'w amlygrwydd ac sy'n cyfateb i'w safle uwch ar EPG Freeview (SD) a DSat. Y disgwyliad oedd y byddai slot mwy amlwg ar dudalen gyntaf EPG Virgin, ymysg darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus eraill Cymru, yn gwella cyrhaeddiad ac oriau gwylio S4C mewn cartrefi cebl yng Nghymru. Yn ôl ymchwil S4C ei hun, mae symud i fyny'r EPG wedi cael effaith fanteisiol ar batrymau gwylio.


Mae tua 210,000 o bobl, neu 8% o bobl 4 oed a hŷn yng Nghymru, yn byw mewn cartrefi sy'n cael eu gwasanaethu gan Virgin cebl. Mewn cartrefi o'r fath, roedd cyrhaeddiad wythnosol S4C yn 2020 yn 8,000, sef 4%, yn is o lawer na chyrhaeddiad wythnosol cyfartalog S4C (10%) ymysg pawb yng Nghymru. Yn hanner cyntaf 2021, fodd bynnag, fe wnaeth cyrhaeddiad wythnosol S4C mewn cartrefi cebl fwy na dyblu i 19,000, neu 9% o bobl mewn cartrefi cebl yng Nghymru. Mae hyn ychydig yn is na'r cyrhaeddiad o 11% ar gyfer S4C ar draws Cymru yn ystod chwe mis cyntaf 2021. Dros yr un cyfnod, roedd oriau gwylio S4C mewn cartrefi cebl wedi cynyddu tua 75%. Er nad yw hyn yn gymaint o gynnydd â'r dyblu a welwyd ar gyfer y cyrhaeddiad wythnosol, mae dal yn gynnydd o'r lefelau blaenorol.

Yn gyffredinol, mae gan gartrefi cebl yng Nghymru broffil oedran iau na chartrefi â Freeview ac maen nhw'n dueddol o fod mewn ardaloedd trefol, llai Cymraeg eu hiaith. Mae hyn wedi galluogi S4C i ehangu ei chynulleidfa y tu hwnt i'w gwylwyr craidd traddodiadol yng Nghymru. Er y gallai S4C fod wedi cynyddu ei gyrhaeddiad wythnosol mewn cartrefi cebl tua 1,000 beth bynnag, gan gyfateb i'r cynnydd mewn cyrhaeddiad mewn cartrefi eraill yng Nghymru, mae'n bosib bod ei safle EPG uwch yng Nghymru wedi arwain at tua 10,000 o wylwyr ychwanegol bob wythnos.

## Arweiniodd y pandemig at ymchwydd mewn gwylio newyddion

Cynyddodd y nifer sy'n gwylio'r newyddion yn y DU yn 2020, wrth i'r cyhoedd chwilio am wybodaeth am y pandemig a chyfyngiadau newidiol y llywodraeth. Yng Nghymru, roedd cyfran cynulleidfa gyfartalog bwletin newyddion noson gynnar BBC One, *Wales Today*, yn 33.2%, i fyny o 25.5% yn 2019. Yn y cyfamser, 23.4% oedd cyfran gyfartalog y gynulleidfa a oedd yn gwylio *Wales at Six* ITV, i fyny o 21.7% yn 2019.

**Ffigur 12: Cyfran % cynulleidfa newyddion noson gynnar BBC One Wales ac ITV Cymru Wales: 2020**




*Ffynhonnell: BARB. Pob unigolyn (dros 4 oed). Nodyn: Ffigurau bwletinau newyddion ('lleol') yn gynnar fin nos yn ôl teitl y rhaglen, yn ystod yr wythnos ac sy'n cynnwys y sianeli +1, lle bo hynny'n berthnasol. Caiff bwletin newyddion noson gynnar BBC One, Wales Today, ei ddarlledu rhwng 18:30 a 19:00 ac mae'n seiliedig ar ardaloedd y BBC. Mae bwletin newyddion ITV Cymru Wales, Wales at Six, yn cael ei ddarlledu rhwng 18:00 a 18:30 ac mae'n seiliedig ar ardaloedd ITV.*

## Roedd gan newyddion DU gyfan noson gynnar y BBC gyfran uwch o'r gynulleidfa yng Nghymru nag yn y gwledydd eraill

Cafodd bwletin newyddion noson gynnar y BBC, *BBC News at Six*, gyfran gyfartalog o 33.9% o'r gynulleidfa, sy'n uwch nag yn unrhyw un o wledydd eraill y DU. I'r gwrthwyneb, roedd cyfran cynulleidfa gyfartalog *ITV Evening News* yng Nghymru yn is na chyfartaledd y DU yn 2020, sef 20.4%.

[7] https://www.s4c.cymru/cy/y-wasg/post/41174/s4c-yn-symud-i-sianel-104-ar-virgin-media-yng-nghymru/

### Newyddion a gwasanaethau newydd

Ym mis Ebrill 2021, ehangodd S4C ei ddarpariaeth newyddion, gan gyflogi ei newyddiadurwyr ei hun am y tro cyntaf, a gan greu ei wasanaeth newyddion digidol ei hun.[8] Lansiwyd ap newyddion S4C mewn partneriaeth â'r cylchgrawn wythnosol Golwg, ITV Cymru Wales a BBC Cymru Wales.

Mewn ymateb i'r pandemig, a'r angen cysylltiedig am newyddion a gwybodaeth am Covid-19, cafodd cynadleddau'r wasg Llywodraeth Cymru eu ffrydio'n fyw ar dudalen Facebook Newyddion S4C. Denodd hyn 3.7 miliwn o sesiynau gwylio ar gyfrifon Twitter a Facebook S4C News yn 2020/21 – cynnydd o 388% o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol a chynnydd o 735% mewn oriau gwylio. Roedd hefyd yn cynnwys cynhyrchu straeon newyddion gwreiddiol ac ail-becynnu cynnwys o raglen newyddion S4C.


Er mwyn cefnogi addysg a dysgu Cymraeg, ym mis Ionawr 2021 cafodd dros 80 awr o raglenni addysgol ar gyfer plant eu darparu i Hwb Llywodraeth Cymru, a rhoddwyd cymorth i raglenni Bitesize y BBC ar y teledu. Y bwriad yw cynyddu'r ddarpariaeth addysgol hon ar Hwb. Mae treial o deledu lleol wedi cael ei lansio mewn partneriaeth â Teli Môn, ac mae dau gynllun peilot arall, yn Sir Gaerfyrddin a gogledd ddwyrain Cymru, bellach ar y gweill, wrth i S4C fesur awydd cynulleidfaoedd am gynnwys lleol yn Gymraeg.

## Teledu yw'r ffynonellau newyddion a ddefnyddir fwyaf gan bobl yng Nghymru

Mae tri o bob pum oedolyn yng Nghymru (57%) yn defnyddio BBC One ar gyfer newyddion, mae dau o bob pump (38%) yn defnyddio ITV Cymru ac mae traean (34%) yn defnyddio Facebook a/neu wefan/ap y BBC (31%).

[8] https://www.s4c.cymru/cy/y-wasg/post/42660/s4c-yn-lansio-gwasanaeth-newyddion-digidol-newydd/

**Ffigur 13: 20 ffynhonnell newyddion uchaf yn gyffredinol yng Nghymru: 2021**





*Ffynhonnell: Arolwg Cael Gafael ar Newyddion 2021 Ofcom - Sampl ar-lein yn unig Sylfaen: Pob oedolyn 16 oed a hŷn yng Nghymru – 2021=252 *data 2020 heb ei ddangos gan fod y sampl yn rhu fach. Sylwch: nid oes modd cymharu data â data yn adroddiadau blaenorol y gwledydd, oherwydd newidiadau methodolegol a orfodwyd oherwydd Covid-19.*

## Mae dau oedolyn o bob pump yng Nghymru yn dweud bod ganddyn nhw 'ddiddordeb mawr' mewn newyddion am eu gwlad

Mae gan y bobl sy'n byw yng Nghymru gryn ddiddordeb mewn newyddion am Gymru. Dywed dau o bob pum oedolyn sy'n dilyn newyddion fod ganddynt 'ddiddordeb mawr' mewn newyddion am Gymru (41%) ffigur sy'n codi i 87% yn y rheini sydd â diddordeb 'mawr' neu 'gymedrol'.

Fel y dangosir isod, oedolion yng Ngogledd Iwerddon a'r Alban sydd fwyaf tebygol o ddweud bod ganddynt 'ddiddordeb mawr' mewn newyddion am eu gwlad, tra bo oedolion yn Lloegr yn fwy tebygol o ddweud 'ychydig o ddiddordeb'.

**Ffigur 14: Lefel diddordeb pobl mewn newyddion am eu gwlad eu hunain, fesul gwlad: 2021**




*Ffynhonnell: Arolwg Cael Gafael ar Newyddion 2021 Ofcom - sampl cyfun CATI ac ar-lein. Sylfaen: Pob oedolyn 16+ sy'n dilyn newyddion yn 2021 - Cyfanswm=4499, Lloegr=3046, Yr Alban=518, Cymru=466, Gogledd Iwerddon=469. Sylwch: nid oes modd cymharu data â data yn adroddiadau blaenorol y gwledydd, oherwydd newidiadau methodolegol a orfodwyd oherwydd Covid-19.*

### Adrodd ar faterion Cymreig a materion sy'n ymwneud â Chymru ar raglenni newyddion a materion cyfoes y rhwydwaith

Mae llawer o wleidyddion, academyddion, sylwebyddion a melinau trafod yng Nghymru wedi ystyried bod y sylw a roddir i newyddion a materion cyfoes yng Nghymru yn ddiffygiol ers tro byd. Mae llawer o hyn wedi ymwneud â phryder ynglŷn â'r diffyg sylw i gynnydd Cymru o ran datblygu a gweithredu polisïau, o'i gymharu â Lloegr. Mae enghreifftiau o'r fath wedi cynnwys sefydlu Comisiynydd Plant, caniatâd tybiedig ar gyfer rhoi organau, gwahardd ysmygu mewn mannau cyhoeddus, a'r tâl o 5c am ddefnyddio bagiau plastig, pob un ohonynt wedi'u cyflwyno yng Nghymru cyn Lloegr.

Mae sylwebyddion y diwydiant hefyd wedi dadlau bod rhaglenni newyddion rhwydwaith yn adrodd ar gyflwyno mesurau sy'n berthnasol i Loegr yn unig fel pe baen nhw'n berthnasol ar draws y DU. Mae hyn yn arbennig o wir yn y meysydd polisi hynny lle ceir y gwahaniaeth mwyaf – iechyd, addysg a pholisi cymdeithasol. Mae'r pandemig Covid-19 wedi gwaethygu'r broblem hon, gyda sylwebyddion yn dadlau bod rhaglenni newyddion rhwydwaith yn methu â gwahaniaethu rhwng mesurau sy'n berthnasol i Loegr ac mewn rhannau eraill o'r DU.

Mae'r Cod Darlledu yn mynnu bod rhaglenni newyddion rhwydwaith a materion cyfoes yn cyflwyno gwybodaeth yn gywir: mae peidio ag egluro pa fesurau sy'n berthnasol yn gyfystyr â thorri'r Cod. Yn ei lythyr at ddarlledwyr ar 22 Mai 2020, fe wnaeth Ofcom gynnwys y testun canlynol:

*Yn benodol, rydym yn eich cynghori'n gryf i gymryd gofal arbennig wrth ddarlledu'r canlynol, er enghraifft:*


- *datganiadau am gyngor iechyd y cyhoedd ar y Coronafeirws nad ydynt o bosibl yn berthnasol i'r pedair gwlad yn y DU, o ystyried yr amrywiadau yn y canllawiau swyddogol rhwng y gwledydd. Dylid bod yn ofalus i sicrhau bod gwylwyr a gwrandawyr yn cael gwybod mewn ffordd briodol am y gwahanol ddulliau a ddefnyddir gan awdurdodau cyhoeddus yng Nghymru, Lloegr, yr Alban a/neu Ogledd Iwerddon mewn meysydd fel gofynion cadw pellter cymdeithasol.*

Yn dilyn hynny, comisiynodd Ofcom Ysgol Newyddiaduraeth, y Cyfryngau a Diwylliant ym Mhrifysgol Caerdydd i gynnal ymchwil ar 'Materion sydd wedi'u Datganoli ar Newyddion Rhwydwaith'.

## Teledu yw’r ffordd fwyaf poblogaidd i bobl gael gafael ar newyddion am eu gwlad eu hunain

Er mai teledu oedd y ffordd fwyaf poblogaidd o bell ffordd i bobl ym mhob un o wledydd y DU gael gafael ar newyddion am eu gwlad eu hunain, roedd y defnydd o radio yn amrywio’n sylweddol ar draws y gwledydd; dywedodd 22% o oedolion yng Nghymru eu bod yn defnyddio’r radio fel ffynhonnell newyddion, o’i gymharu â 38% yng Ngogledd Iwerddon.

**Ffigur 15: Llwyfannau a ddefnyddir gan bobl i gael gafael ar newyddion am eu gwlad eu hunain, fesul gwlad: 2021**




*Ffynhonnell: Arolwg Cael Gafael ar Newyddion Ofcom 2021 – Sampl CATI ac ar-lein cyfnol. Sylfaen: Pob oedolyn 16+ sy'n dilyn newyddion – Yr Alban=518, Cymru=466, Gogledd Iwerddon=469. Nodyn: Ni ellir cymharu'r data ag arolygon blaenorol, oherwydd newidiadau methodolegol a orfodwyd gan Covid-19.*

*Ffynhonnell: Arolwg Cael Gafael ar Newyddion 2021 Ofcom - sampl cyfun CATI ac ar-lein. Sylfaen: Pob oedolyn 16+ sy’n dilyn newyddion – Yr Alban=518, Cymru=466, Gogledd Iwerddon=469. Sylwch: nid oes modd cymharu data â data yn adroddiadau blaenorol y gwledydd, oherwydd newidiadau methodolegol a orfodwyd oherwydd Covid-19.*

## BBC One ac ITV Cymru yw'r ffynonellau newyddion a ddefnyddir fwyaf i gael newyddion am Gymru

BBC One (33%) ac ITV Wales (25%) yw’r ffynonellau newyddion mwyaf poblogaidd a’r ail fwyaf poblogaidd ar gyfer y wlad, ac wedyn Facebook (18%) a gwefan/ap y BBC (17%). Roedd un ar ddeg y cant o bobl Cymru wedi defnyddio gwefan/ap newyddion Cymreig i gael newyddion am eu gwlad.

**Ffigur 16: Ffynonellau a ddefnyddiwyd i gael gafael ar newyddion am eu gwlad: 2021**

**Lloegr**

| | | |
|---|---|---|
| BBC One | 33% | ▼ |
| ITV | 20% | ▼ |
| Facebook | 15% | |
| Gwefan/ap y BBC | 13% | ▲ |
| Ddim yn dilyn newyddion y Wlad | 6% | |

**Yr Alban**

| | | |
|---|---|---|
| STV | 36% | |
| BBC One | 26% | |
| Gwefan/ap y BBC | 22% | |
| Facebook | 20% | |
| Twitter | 15% | ▲ |
| Teledu BBC Scotland | 12% | ▼ |
| Google (peiriant chwilio) | 11% | |
| BBC Radio Scotland | 9% | |
| Unrhyw bapur newydd a leolir yn yr Alban | 8% | |
| Ddim yn dilyn newyddion y Wlad | 3% | |

**Cymru**

| | |
|---|---|
| BBC One | 33% |
| ITV WALES | 25% |
| Facebook | 18% |
| Gwefan/ap y BBC | 17% |
| Unrhyw wefan/ap newyddion yng Nghymru | 11% |
| BBC Radio Wales/Cymru | 8% |
| Twitter | 8% |
| Ddim yn dilyn newyddion y Wlad | 3% |

**Gogledd Iwerddon**

| | |
|---|---|
| UTV | 50% |
| BBC One | 45% |
| Gwefan/ap y BBC | 26% |
| Facebook | 26% |
| BBC Radio Ulster/Foyle | 14% |
| Unrhyw bapur newydd a leolir yng Ngogledd Iwerddon | 13% |
| Cool FM | 13% |
| U105 | 12% |
| Unrhyw wefan/ap newyddion yng Ngogledd Iwerddon | 12% |
| Twitter | 10% |
| Sianel BBC News | 9% |
| The Belfast Telegraph | 7% |
| Google (peiriant chwilio) | 7% |
| Ddim yn dilyn newyddion y Wlad | 0% |

Ffynhonnell: Ofcom Arolwg Cael Gafael ar Newyddion 2021 - Sampl ar-lein yn unig. Trionglau gwyrdd/coch yn dangos gwahaniaethau ystadegol sylweddol rhwng 2021 a samplau ar-lein 2020. Sylfaen: Pob oedolyn 16+ sy'n defnyddio Teledu/Papurau Newydd/Radio/Y Rhyngrwyd/ Cylchgronau ar gyfer newyddion – Lloegr=2408, Yr Alban=290, Cymru=242, Gogledd Iwerddon=243. Dim ond y ffynonellau sydd â nifer o >6% ym mhob gwlad a ddangosir. Nodyn: Nid oes modd cymharu'r data gyda data yn adroddiadau blaenorol y cenhedloedd oherwydd newidiadau methodolegol gorfodol o ganlyniad i Covid-19.

*Ffynhonnell: Arolwg Cael Gafael ar Newyddion 2021 Ofcom - Sampl ar-lein yn unig Mae trionglau gwyrdd/coch yn dangos gwahaniaethau ystadegol arwyddocaol rhwng samplau ar-lein 2020 a 2021. Sylfaen: Pob oedolyn 16+ sy'n defnyddio teledu/papurau newydd/radio/y rhyngrwyd/ cylchgronau ar gyfer newyddion – Lloegr=2408, Yr Alban=290, Cymru=242, Gogledd Iwerddon=243. Dim ond y ffynonellau sydd â nifer o >6% ym mhob gwlad a ddangosir. Sylwch: nid oes modd cymharu data â data yn adroddiadau blaenorol y gwledydd, oherwydd newidiadau methodolegol a orfodwyd oherwydd Covid-19.*

# Rhaglenni teledu i Gymru ac o Gymru

## Cyflwyniad

Mae'r pandemig wedi cael effaith sylweddol ar gynhyrchu a buddsoddi mewn cynnwys ar draws y DU. Fe wnaeth y cyfyngiadau cadw pellter cymdeithasol stopio cynnwys rhag cael ei gynhyrchu i ddechrau, ac yna cynyddodd y costau ar ôl ailddechrau cynhyrchu. Mae hyn wedi cael effaith ar ddarlledwyr ac ar gomisiynwyr sy'n ceisio cynnal ffrydiau cynnwys, ac ar gynhyrchwyr sy'n ceisio sicrhau bod cynyrchiadau'n gallu parhau mewn ffordd sy'n ddiogel o ran Covid.

Nid yw'n syndod bod twf yn y sector cynhyrchu wedi arafu yn 2020, ond ar y cyfan mae'r diwydiant mewn sefyllfa dda i wella. Fodd bynnag, mae'r pandemig yn debygol o waethygu rhai o'r tueddiadau presennol yn y sector, fel costau cynhyrchu uchel, heriau refeniw ar gyfer darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus y DU, a chydgrynhoi yn y sector cynhyrchu annibynnol.

Ar gyfer cynyrchiadau yn y gwledydd a'r rhanbarthau, roedd y cyfyngiadau'n golygu na allai rhai cynyrchiadau ddigwydd yn ystod y cyfyngiadau symud, neu eu bod wedi cael eu gohirio. Fe wnaeth hyn effeithio ar rai o dargedau cynhyrchu rhanbarthol y darlledwyr ar gyfer 2020, fel oriau wythnosol ITV ar gyfer Cymru o raglenni heb fod yn rhai rhwydwaith. Mae rhagor o wybodaeth am berfformiad darlledwyr o gymharu â'r cwotâu hyn ar gael yn Adroddiad Cydymffurfio Blynyddol Darlledu Gwasanaeth Cyhoeddus Ofcom.[9]

Mae'r BBC ac ITV Cymru Wales yn darparu rhaglenni'n benodol i wylwyr yng Nghymru ar draws amrywiaeth o genres, ond yn fwyaf arbennig rhaglenni newyddion. Roedd gostyngiad o 22% yn y gwariant ar gynnwys sy'n cael ei ddangos am y tro cyntaf i wylwyr yng Nghymru yn 2020, gyda'r gwariant ar raglenni heb fod yn newyddion/materion cyfoes yn gostwng y mwyaf sef 30%. Mae rhaglenni heb fod yn newyddion/materion cyfoes yn cyfrif am y gyfran fwyaf o wariant sy'n cael ei ddangos am y tro cyntaf (50%) yng Nghymru.

Roedd oriau'r BBC o gynnwys sy'n cael ei ddangos am y tro cyntaf yng Nghymru wedi gostwng 2% yn 2020 i 616 awr. Yn gyffredinol, cynnwys newyddion yw'r rhan fwyaf o allbwn y BBC i Gymru, sef 61% o'r oriau sy'n cael eu dangos am y tro cyntaf.

Mae Cymru yn ffynhonnell bwysig o gynhyrchu cynnwys darlledu gwasanaeth cyhoeddus sy'n cael ei ddangos ar draws y DU. 7.5% o'r gwariant rhwydwaith cymwys ar sianeli darlledu gwasanaeth cyhoeddus a gafodd ei wario ar gynyrchiadau yng Nghymru yn 2020.

[9] https://www.ofcom.org.uk/cymru/tv-radio-and-on-demand/information-for-industry/public-service-broadcasting

### S4C – Sianel Pedwar Cymru

Mae S4C yn wasanaeth cyhoeddus unigryw sy’n darparu cynnwys clyweled yn Gymraeg ar deledu a thrwy lwyfannau digidol eraill. Fel yr unig wasanaeth cyhoeddus Cymraeg o’i fath, mae’n ceisio cynnig cynnwys sy’n bodloni gofynion ystod eang o wahanol gynulleidfaoedd, o ran oedran, chwaeth a dewis genre.

Mae S4C yn ceisio sicrhau ei fod yn diwallu anghenion pob cymuned yng Nghymru. Yn ystod y flwyddyn hon, cyflogodd ei Swyddog Amrywiaeth a Chynhwysiad cyntaf i sicrhau bod S4C a’i sector cadwyn gyflenwi yn adlewyrchu Cymru gyfan. Mae S4C yn cefnogi gwaith Ofcom ar amrywiaeth yn y sector ac yn gweithio’n agos gyda’i dîm cynhwysiad.

Ar ddechrau’r flwyddyn, symudodd gwasanaethau dosbarthu S4C i ganolfan newydd BBC Cymru Wales yn y Sgwâr Canolog yng Nghaerdydd. Mae ffrydiau darlledu ar gyfer pob llwyfan yn cael eu dosbarthu oddi yno, yn yr un modd â Clic, chwaraewr ar-lein S4C. Y cynnwys cyntaf i gael ei ddarlledu oedd gwasanaeth plant S4C, Cyw, a chafodd y sylw i etholiadau’r Senedd yn 2021 ei gynnal yn y Sgwâr Canolog hefyd.

Ar hyn o bryd mae S4C yn derbyn £74.5m o ffi’r drwydded, £6.85m gan yr Adran dros faterion Digidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon a swm bach o incwm masnachol. Yn dilyn argymhellion adolygiad annibynnol a noddwyd gan Lywodraeth y DU yn 2019, o 2022 ymlaen bydd holl gyllid cyhoeddus S4C yn dod o ffi’r drwydded. Dyma’r tro cyntaf i S4C orfod gwneud cais am gyllid tymor hir o un ffynhonnell fel hon. Mae wedi cyflwyno cynllun i’r Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon i alluogi rhagor o fuddsoddiad yn ei gynnyrch digidol, ac i ehangu ei wasanaethau mewn ffordd a fydd yn sicrhau dyfodol y Gymraeg ar draws llwyfannau byd-eang.

### Sut rydym yn adrodd ar wariant ar raglenni

Mae'r dadansoddiad yn yr adran hon yn ymdrin â rhaglenni sy'n cael eu gwneud yng Nghymru ar gyfer gwylwyr yng Nghymru yn ogystal â rhaglenni sy'n cael eu gwneud yn y wlad a'u darlledu ar draws y DU. Mae’n canolbwyntio ar gynnwys gwreiddiol o’r DU i’w ddarlledu am y tro cyntaf, sef rhaglenni a gomisiynir gan sianel gwasanaeth cyhoeddus drwyddedig, neu ar ei chyfer, gyda’r bwriad o’u dangos am y tro cyntaf ar deledu yn y DU yn y flwyddyn gyfeirio.

Mae gwariant ar y cynnwys hwn yn cynnwys yr holl gostau a wynebir gan y darlledwr sy'n gysylltiedig â chreu rhaglenni. Mae’r rhain yn cynnwys costau cynhyrchu uniongyrchol ac anuniongyrchol ar gyfer cynyrchiadau mewnol a chostau trwyddedu ar gyfer rhaglenni a gomisiynir, ond nid yw’n cynnwys costau sy’n gysylltiedig â marchnata a dosbarthu. Mae'r ffigurau gwariant mewn termau real, sy'n golygu eu bod wedi'u haddasu ar gyfer chwyddiant gan ddefnyddio'r mynegai prisiau defnyddwyr (CPI) ac yn cael eu rhestru yn nhelerau 2020.


## Gwariant ar raglenni ar gyfer Cymru

### Bu gostyngiad yng ngwariant darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus ar gynnwys a ddarlledwyd am y tro cyntaf yng Nghymru ar draws pob genre yn 2020

Roedd gostyngiad 22% yn y gwariant ar gynnwys sy’n cael ei ddangos am y tro cyntaf ar gyfer gwylwyr yng Nghymru yn 2020. O’r cyfanswm o £26.4m a wariwyd, aeth y rhan fwyaf tuag at faterion heb fod yn newyddion/materion cyfoes, sef £13.1m.

Rhaglenni nad ydynt yn newyddion/materion cyfoes a welodd y gostyngiad cymharol mwyaf mewn gwariant sy’n cael ei ddangos am y tro cyntaf, gostyngiad 30% o un flwyddyn i’r llall i £13.1m. Gostyngodd gwariant darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus ar raglenni newyddion yng Nghymru 7%.

**Ffigur 17: Gwariant darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus ar gynnwys gwreiddiol o’r DU a ddarlledwyd am y tro cyntaf ar gyfer Cymru, yn ôl genre (£m)**





*Ffynhonnell: Ofcom/darlledwyr. Nodyn: Mae'r ffigurau wedi cael eu mynegi yn ôl prisiau 2020. Ddim yn cynnwys gwariant ar allbwn S4C.*

## Gostyngodd gwariant BBC ac ITV Cymru Wales ar gynnwys a ddarlledwyd am y tro cyntaf ar gyfer Cymru yn 2020

Cafodd y gostyngiad mewn gwariant ar gynnwys sy’n cael ei ddangos am y tro cyntaf ei sbarduno gan y BBC; roedd ei wariant ar gyfer Cymru wedi gostwng 25% ers 2019. Mewn termau ariannol, mae hyn yn ostyngiad o £6.6m i £20.8m.

Roedd gwariant ITV ar gynnwys sy’n cael ei ddangos am y tro cyntaf yng Nghymru hefyd wedi gostwng 9% yn 2020.

**Ffigur 18: Gwariant y BBC ac ITV Cymru Wales ar gynnwys gwreiddiol o'r DU nad yw'n deillio o'r rhwydwaith a ddarlledwyd am y tro cyntaf ar gyfer Cymru (£m)**




*Ffynhonnell: Ofcom/darlledwyr. Nodyn: Mae'r ffigurau wedi cael eu mynegi yn ôl prisiau 2020. Ddim yn cynnwys gwariant ar allbwn S4C.*

### Gofynion / ymrwymiadau rhaglenni lleol

Mae'n ofynnol bod ITV a'r BBC yn cynhyrchu rhaglenni ar gyfer gwylwyr yng Nghymru.

O dan delerau ei drwydded, a adnewyddwyd ar 1 Ionawr 2015 am ddeng mlynedd, mae'n rhaid i ITV Cymru Wales ddarparu nifer sylfaenol o raglenni sydd 'o ddiddordeb arbennig' i'r bobl sy'n byw yng Nghymru. Bydd hyn yn cael ei wneud drwy'r cwotâu ar gyfer newyddion a rhaglenni heb fod yn rhaglenni newyddion/materion cyfoes.

Mae'r cwotâu hyn yn mynnu bod ITV yn cynhyrchu 4 awr o newyddion ac 1 awr 30 munud yr wythnos o raglenni rhanbarthol nad ydynt yn rhaglenni newyddion. Rhaid i 47 munud o'r rhaglenni hyn fod yn rhaglenni materion cyfoes.

Rhaid i BBC Cymru Wales, drwy ei drwydded weithredu a ddaeth i rym ar 1 Ionawr 2018, hefyd gyflawni'r amodau rheoleiddio sy'n benodol i Gymru.

Ymysg pethau eraill, mae'r drwydded weithredu hon yn datgan bod yn rhaid i'r BBC, ym mhob blwyddyn ariannol, sicrhau:


- mewn perthynas â BBC One Cymru Wales, bod o leiaf 275 awr yn cael ei neilltuo ar gyfer rhaglenni newyddion a materion cyfoes; a bod o leiaf 65 awr yn cael eu neilltuo i raglenni heb fod yn newyddion;
- mewn perthynas â BBC Two Cymru Wales, bod o leiaf 175 awr yn cael ei neilltuo ar gyfer rhaglenni heb fod yn newyddion;
- mewn perthynas â BBC One Cymru Wales a BBC Two Cymru Wales gyda'i gilydd, mae'n rhaid i'r BBC sicrhau eu bod yn darparu amrywiaeth o genres yn eu rhaglenni sy'n adlewyrchu diwylliant Cymru.

## Gostyngodd oriau'r BBC o gynnwys a ddarlledwyd am y tro cyntaf yng Nghymru 2% yn 2020 i 616 awr

Sbardunwyd y gostyngiad mewn oriau gan faterion cyfoes a chynnwys nad yw'n newyddion/materion cyfoes. Mae'r gostyngiad mwyaf wedi bod mewn materion cyfoes, gan ostwng 12 awr i lawr i 33 awr (27%).

Yn gyffredinol, cynnwys newyddion yw'r rhan fwyaf o allbwn y BBC i Gymru, sef 61% o'r oriau a ddarlledir am y tro cyntaf, i fyny o 53% yn 2019.

**Ffigur 19: Oriau'r BBC o gynnwys gwreiddiol o’r DU a ddarlledwyd am y tro cyntaf ar gyfer Cymru, yn ôl genre**




*Ffynhonnell: Ofcom/darlledwyr.*

### BBC Cymru Wales

Ym mis Mawrth 2021, cyhoeddodd y BBC gynllun chwe blynedd i gryfhau ei bresenoldeb ar draws y pedair gwlad, gyda 20 o ddramâu rhwydwaith a chyfresi comedi i’w gosod yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon dros y tair blynedd nesaf. Bydd y rhan fwyaf o gynyrchiadau teledu rhwydwaith y BBC yn cael eu cynhyrchu y tu allan i Lundain (o leiaf 60% erbyn 2027) ac mae’r BBC wedi datgan y bydd yn defnyddio personoleiddio ar-lein dros y chwe blynedd nesaf i sicrhau bod cynnwys Cymraeg yn fwy amlwg ac yn haws cael gafael arno. Hefyd, Cymru fydd canolfan ragoriaeth y BBC ar gyfer newyddiaduraeth hinsawdd a gwyddoniaeth.

Drwy gydol mis Ebrill a dechrau mis Mai, rhoddodd y timau newyddion sylw cynhwysfawr i etholiadau’r Senedd ar gyfer cynulleidfaoedd yng Nghymru ac ar draws gweddill y DU. Fe wnaeth sylw’r BBC i ganlyniadau etholiadau yng Nghymru ddenu cynulleidfa o tua 1.2 miliwn o unigolion dros benwythnos yr etholiad, bron i hanner poblogaeth oedolion Cymru (47%). Fe wnaeth y traffig i gynnwys ar-lein Newyddion BBC Cymru Wales dros benwythnos yr etholiad gyrraedd 1 miliwn o borwyr unigryw ddydd Sadwrn 8 Mai.


Mae Cyfarwyddwr BBC Cymru Wales, Rhodri Talfan Davies, wedi cael ei benodi’n gyfarwyddwr gwledydd y BBC, ac mae’n gyfrifol am arwain yr holl waith sy’n gwasanaethu gwledydd a chynulleidfaoedd lleol ar draws Cymru, yr Alban, Lloegr a Gogledd Iwerddon. Bydd Davies yn adrodd i’r cyfarwyddwr cyffredinol Tim Davie ac yn ymuno â’r pwyllgor gweithredol newydd, llai, ond bydd yn parhau fel cyfarwyddwr BBC Cymru ochr yn ochr â’i rôl newydd. Mae Rhuanedd Richards wedi cael ei phenodi’n Gyfarwyddwr Cynnwys a Gwasanaethau a bydd yn goruchwylio’r gwaith o ddatblygu’r holl raglenni a chynnwys ar draws teledu, radio ac ar-lein, yn Gymraeg ac yn Saesneg.

## Mae oriau ITV Cymru Wales o gynnwys a ddarlledir am y tro cyntaf yng Nghymru wedi gostwng fesul blwyddyn, gyda 283 awr o raglennu yn 2020

Cynnwys newyddion yw’r rhan fwyaf o allbwn ITV Cymru Wales, 85% (241 awr) o raglenni a ddarlledir am y tro cyntaf ar y sianel.

Mae’r gostyngiad mewn oriau wedi bod ar draws pob genre. Bu’r gostyngiad mwyaf mewn rhaglenni nad ydynt yn newyddion/materion cyfoes, gyda gostyngiad 24 awr i lawr i chwech awr (80%).

**Ffigur 20: Oriau ITV Cymru Wales o gynnwys gwreiddiol o’r DU a ddarlledir am y tro cyntaf ar gyfer Cymru, yn ôl genre**




*Ffynhonnell: Ofcom/darlledwyr.*

## ITV Cymru Wales

Roedd cyfres fer tair rhan trosedd wir ITV, *Pembrokeshire Murders*, a ddarlledwyd ddechrau mis Ionawr 2021, yn llwyddiant ysgubol. Cafodd y bennod gyntaf ei gwylio gan 11.2 miliwn o bobl yn ystod wythnos gyntaf y darllediad – lansiad drama newydd mwyaf ITV ers *Lewis* yn 2006. Gyda chyfran o 37.4% wedi'i chyfuno ar gyfer y rhaglen cyntaf, roedd yn ddwbl cyfartaledd slot 9pm ITV ar ddydd Llun (18.7%). Roedd y ddrama'n seiliedig ar lyfr a gyd-ysgrifennwyd gan newyddiadurwr a chyflwynydd ITV Cymru Wales, Jonathan Hill, ac arweiniodd hyn at gomisiynu'r ddrama rhwydwaith. Cafodd ei gynhyrchu gan World Productions, rhan o ITV Studios, ar y cyd â Severn Screen yng Nghaerdydd. Erbyn hyn, mae'r ddrama, a ddosbarthwyd yn rhyngwladol gan ITV Studios, wedi cael ei phrynu gan bron i 30 o diriogaethau ar draws y byd. Cafodd stori fewnol yr ymchwiliad ei hadrodd drwy raglen ddogfen rhwydwaith a gynhyrchwyd gan ITV Wales, *The Pembrokeshire Murders: Catching the Gameshow Killer.* Roedd yn adrodd stori unigryw Gymreig i gynulleidfa ar draws y DU a chafodd cynulleidfa wedi'i chydgrynhoi o 5.7 miliwn o wylwyr, y gynulleidfa drosedd ffeithiol fwyaf ers 2013. Chwaraeodd ITV ran bwysig yn yr ymchwiliad, gan weithio gyda Heddlu Dyfed-Powys i ryddhau gwybodaeth am yr ymchwiliad, a thrwy ddarparu tystiolaeth hanfodol o'r sioe gemau *Bullseye* yr oedd y troseddwr wedi ymddangos arno ddiwrnodau cyn iddo lofruddio dau berson ar wyliau yn Aberdaugleddau.

Roedd Etholiad 2021 y Senedd yn etholiad hollol unigryw, o ystyried y cyfyngiadau Covid yr oedd newyddiadurwyr ITV Cymru Wales yn gweithredu oddi tanynt. Roedd yn dominyddu allbwn newyddion y sianel ac amserlen rhaglenni ITV Wales ym mis Ebrill a dechrau mis Mai, llawer ohono o dan faner *Wales Decides.* Y Golygydd Gwleidyddol Adrian Masters oedd wrth flaen *Wales Decides: The ITV Debate*, darllediad byw, arbennig, awr o hyd, ynghyd â phedair rhaglen yn amlinellu arweinwyr y pleidiau. Roedd yr uchafbwyntiau eraill yn cynnwys tri phroffil etholaeth arbennig i *Wales Decide*s, a gyflwynwyd gan Rob Osborne, a phum pennod o raglen wleidyddol Gymraeg *Y Byd yn ei Le* gyda Guto Harri ar S4C. Cafodd canlyniadau'r etholiad eu darlledu'n fyw ddydd Gwener 7 Mai o nifer o'r etholaethau a chyfrifiadau, mewn pedair awr o raglenni arbennig, a thrwy'r dydd ar wefan a sianeli cyfryngau cymdeithasol ITV Cymru.

Mae ITV Cymru Wales yn darparu amrywiaeth o gynnwys ffeithiol a materion cyfoes ar gyfer S4C, sy'n amrywio o gyfresi sydd wedi rhedeg ers tro, fel y rhaglen ymchwiliol *Y Byd Ar Bedwar* i gynnwys digidol adweithiol ffurf-fer fel Grid ar gyfer llwyfan Hansh. Bob blwyddyn, mae ITV yn cael tua 30 awr o gynnwys *Dim* gan S4C, ochr yn ochr â'r oriau sydd wedi'u sicrhau gan gwmni ITV Studios Boom Cymru. Daeth ITV Cymru Wales yn bartner i wefan ac ap newyddion S4C ym mis Ebrill 2021, gan helpu i ddarparu lluosogrwydd hanfodol i'r gwasanaeth hwn. Mae'r tîm cynhyrchu yn rhannu ac yn pecynnu cynnwys newyddion ITV Cymru Wales bob dydd yn Gymraeg ar gyfer gwasanaeth digidol S4C, gan ddangos ei lwyddiant o ran creu cynnwys newydd ar gyfer cynulleidfaoedd newydd ar lwyfannau newydd. Mae gan yr ap newyddion ddilyniant cryf yn barod ac mae wedi cael 3.7 miliwn o ymweliadau.


Dros y tair blynedd ddiwethaf, mae ITV Cymru Wales wedi ffurfio partneriaeth ag S4C mewn cynllun hyfforddi newyddiadurwyr i helpu dau newyddiadurwr ifanc i ddatblygu gyrfa drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'r hyfforddeion yn creu cynnwys materion cyfoes digidol pwrpasol ar gyfer Hansh, o dan frand Sbin, yn bennaf ar Twitter, Instagram a TikTok. Roedd y sylw pwrpasol a roddwyd gan y tîm i etholiad y Senedd ym mis Mai 2021 yn llwyddiannus iawn o ran darparu cynnwys syml, addysgol ac atyniadol i bleidleiswyr ifanc, ynghyd â llenwi bwlch yn y cylch gwaith gwasanaeth cyhoeddus ar gyfer pobl ifanc yng Nghymru. Llwyddodd y tîm hefyd i sicrhau cyllid gan Gronfa Cynnwys ar gyfer Cynulleidfaoedd Ifanc y BFI er mwyn cynhyrchu *Taswn i'n Brif Weinidog Cymru* ac amrywiaeth o gynnwys wedi'i anelu at bleidleiswyr newydd 16 ac 17 oed.

## Gwariodd S4C £66m ar gomisiynau a ddarlledwyd am y tro cynaf yn 2020-21, ar draws wyth genre

Fe aeth y rhan fwyaf o'r gwariant at raglenni ffeithiol cyffredinol (£18.7m), ac yna cerddoriaeth/adloniant ysgafn (£12.1m) a drama (£11.9m), a oedd yn cynrychioli dros hanner cyfanswm gwariant S4C ar raglenni sy'n cael eu dangos am y tro cyntaf.

Fe aeth swm sylweddol o'r gwariant at chwaraeon (£9.5m) hefyd, gyda'r gweddill yn ariannu cynnwys yn y genres plant, materion cyfoes a'r tywydd, crefydd, a cherddoriaeth a'r celfyddydau.

**Ffigur 21: Gwariant S4C ar gomisiynau a ddarlledwyd am y tro cyntaf: 2020-21 (£m)**





*Ffynhonnell: Ofcom/darlledwyr. Nodyn: Mae'r ffigurau wedi cael eu mynegi yn ôl prisiau 2020.*

## Cynnwys rhwydwaith a gynhyrchwyd yng Nghymru

Rhaid i ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus sy'n cynhyrchu ac yn comisiynu rhaglenni i'w darlledu am y tro cyntaf ar eu sianeli teledu rhwydwaith wneud yn siŵr bod y rhaglenni hyn yn cael eu cynhyrchu mewn amrywiaeth o lefydd ar draws y DU. Mae gan y darlledwyr gwotâu sy'n ymwneud â hyn, o ran cyfran yr oriau cymwys a chyfran y gwariant cymwys sy'n gorfod bod y tu allan i Lundain. Mae gan y BBC gwotâu unigol ar gyfer pob un o wledydd y DU ac mae gan Channel 4 gwota 'tu allan i Loegr' hefyd. Nid oes gofyniad penodol i ITV a Channel 5 gynhyrchu cynnwys y tu allan i Loegr.

Ymysg yr holl ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus, cafodd 7.5% o'r gwariant rhwydwaith cymwys ar raglenni sy'n cael eu darlledu am y tro cyntaf ei neilltuo i raglenni sy'n cymhwyso fel cynyrchiadau yng Nghymru, a 2.9% o'r oriau.

**Ffigur 22: Cyfran yr oriau rhwydwaith a'r gwariant cymwys y tu allan i Lundain, pob un o'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus wedi'u cyfuno: 2016-2020**




*Ffynhonnell: Darlledwyr / Ofcom.*

## Cymru Greadigol

Mae Cymru Greadigol yn un o asiantaethau mewnol Llywodraeth Cymru sy'n cefnogi'r gwaith o ddatblygu'r diwydiannau creadigol cynaliadwy a chynhwysol sy'n tyfu'n gyflym yng Nghymru. Ei nod yw cefnogi doniau lleol a denu prosiectau creadigol rhyngwladol drwy gyllido, darparu gwasanaethau arbenigol a chyfeirio at y dewis o gyfleusterau, criwiau medrus a thalent sy'n bodoli ar draws Cymru. Wrth wneud hynny, mae'n cryfhau'r diwydiant yn y tymor hir ac yn creu cyfleoedd ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Mae Cymru Greadigol bellach yn ei hail flwyddyn, ac mae'n parhau i weithio'n agos gyda phobl greadigol ar draws y sectorau sgrin, cerddoriaeth, digidol a sgiliau, gan gynnig cyllid argyfwng a chyllid datblygu i fusnesau a chymorth a chanllawiau lefel uchel gan Lywodraeth Cymru. Fe wnaeth cyflwyno cam cyntaf y Gronfa Adferiad Diwylliannol gefnogi 646 o fusnesau a 3,500 o unigolion gyda chyllid o £63m. Yn nechrau 2021, cyhoeddwyd estyniad i'r Gronfa Adferiad Diwylliannol gwerth hyd at £30m, gan gynnig cymorth ariannol ychwanegol i sefydliadau a gweithwyr llawrydd wrth iddyn nhw barhau i addasu ac ymateb i'r heriau maen nhw'n eu hwynebu yn dilyn y pandemig.

Mae'r sectorau sgrin a digidol yng Nghymru wedi cael llwyddiannau sylweddol yn ddiweddar, gan gynnwys datblygu *Fix Up The City*, profiad realiti estynedig yn defnyddio'r dechnoleg greadigol ddiweddaraf, ac mae cyfres drawiadol o gynyrchiadau teledu a ffilm uchel eu proffil sy'n cael eu cynhyrchu yng Nghymru ar hyn o bryd, gan gynnwys *Havoc*, ffilm gyda Tom Hardy a Forest Whitaker; y drydedd gyfres o *His Dark Materials* a grewyd gan Bad Wolf Studios, a *Willow*, cyfres deledu ffantasi gan LucasFilm ar gyfer Disney+.

Wrth i'r diwydiant symud i gyfnod o adferiad, mae mwy o gyfleoedd yn cael eu creu ar gyfer y diwydiant. Mae adroddiad diweddar a gyhoeddwyd gan Clwstwr yn dangos mai Caerdydd yw'r drydedd ganolfan cynhyrchu teledu a ffilmiau fwyaf, y tu ôl i Fanceinion a Llundain, ac mae'r sector sgrin yng Nghymru drwyddi draw yn brysurach nag erioed.[10]

Mae Cymru Greadigol yn symud i gyfnod newydd, gan ganolbwyntio ar hyrwyddo cynhwysiad ac amrywiaeth ar draws y diwydiant, er mwyn sicrhau bod cyfleoedd cyffrous ar gael i bobl greadigol ddatblygu eu sgiliau a'u doniau. Bydd rhaglen o gyllid datblygu yn cael ei chyflwyno drwy Cymru Greadigol dros y misoedd nesaf i gefnogi prosiectau newydd. Bydd Cymru Greadigol hefyd yn chwarae rhan bwysig yn rhaglen ddigwyddiadau Festival UK 2022 (teitl gweithredol), gan gefnogi comisiwn Collective Cymru National Theatre Wales wrth iddi gynrychioli Cymru ar y llwyfan byd-eang.

## Cyfraniad S4C at yr economi

Yn ystod y pandemig, bu S4C yn helpu'r economi greadigol yng Nghymru wrth iddi geisio cefnogi bywoliaeth gweithwyr y sector ar draws y wlad. Mae ymchwil economaidd annibynnol gan Arad Research, a gyhoeddwyd ym mis Ebrill 2021, yn manylu ar yr effaith mae S4C wedi'i chael ar ardal Caerfyrddin ers symud ei bencadlys i ganolfan 'Yr Egin' ym Mhrifysgol y Drindod Dewi Sant. Yn ôl ymchwil Arad, cynhyrchodd S4C effaith economaidd o £197.4m i economi'r DU yn 2019-20.[11] Am bob £1 o incwm a dderbyniwyd gan S4C, cynhyrchwyd effaith economaidd o £2.03, gyda'r rhan fwyaf o hyn yng Nghymru. Ar ben hynny, roedd gwariant S4C wedi creu rhagor o alw a chyflogaeth, gan gefnogi tua 2,334 o weithwyr a gweithwyr llawrydd yn y Deyrnas Unedig, ac amcangyfrifir bod 2,229 ohonynt wedi'u lleoli yng Nghymru a 245 yn Sir Gaerfyrddin.

## Mae darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus wedi lleihau'r gyfran o'u cynnwys rhwydwaith sy'n cael ei gynhyrchu yng Nghymru, ond mae'r gwariant wedi cynyddu o gymharu â 2019

Wrth ystyried y cyfan, gostyngodd cyfran oriau cymwys darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus a gynhyrchwyd yng Nghymru yn 2020, o 3.2% yn 2019 i 2.9%. Fodd bynnag, cynyddodd y gwariant ar gynyrchiadau cymwys yng Nghymru, o 4.2% i 7.5%. Roedd hyn yn bennaf oherwydd cynnydd mewn gwariant gan ITV yng Nghymru, yn deillio'n bennaf o adleoli *I'm a Celebrity... Get me out of Here!.*

Ochr yn ochr â'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus eraill, roedd y BBC, sy'n gyfrifol am y rhan fwyaf o'r cynnwys rhwydwaith cymwys sy'n cael ei wneud yng Nghymru, wedi cynnal cyfran ei wariant rhwydwaith yng Nghymru, 8.2% yn 2020, tra roedd cyfran yr oriau wedi gostwng i 4.6%.

Mae'r BBC yn parhau i gynhyrchu cyfresi drama yng Nghymru, gan gynnwys *Doctor Who* a *His Dark Materials*, a chafodd yr ail gyfres ei darlledu yn 2020. Roedd teitlau newydd yn 2020 a gafodd eu ffilmio yng Nghymru yn cynnwys teitlau ffeithiol arbenigol, fel *Our Finest Hours*, a rhaglenni cerddoriaeth, fel *Annie Nightingale: Bird on the Wireless*.

**Ffigur 23: Cyfran y cynyrchiadau rhwydwaith cymwys yng Nghymru, yn ôl darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus: 2016-2020**

| | | 2016 | 2017 | 2018 | 2019 | 2020 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| BBC | Gwariant (%) | 5.8 | 6.7 | 6.3 | 8.2 | 8.2 |
| | Oriau (%) | 4.3 | 4.4 | 4.6 | 5.4 | 4.6 |
| ITV | Gwariant (%) | 0.1 | 0.01 | 0.01 | 0.1 | 6.6 |
| | Oriau (%) | 0.1 | 0.1 | 0.1 | 0.1 | 1.1 |
| Channel 4 | Gwariant (%) | 2.8 | 2.2 | 3.4 | 2.4 | 2.3 |
| | Oriau (%) | 2.4 | 2.7 | 4.2 | 4.6 | 4.3 |
| Channel 5 | Gwariant (%) | 0.3 | 0.4 | 0.2 | 1.4 | 0.3 |
| | Oriau (%) | 0.4 | 0.5 | 0.2 | 0.5 | 0.3 |

*Ffynhonnell: Darlledwyr / Ofcom.*

[10] (Adroddiad Diwydiannau Creadigol Clwstwr Rhif 2: Y sector cyfryngau ym Mhrifddinas-Ranbarth Caerdydd – yn sbarduno twf economaidd drwy weithgareddau clyweledol | Clwstwr)
[11] https://www.s4c.cymru/cy/amdanom-ni/page/43160/cyhoeddiadau/

### *Edrych ar ddatganoli darlledu: sut y gall Cymru gael y cyfryngau y mae eu hangen arni?*

Ym mis Mawrth 2021, cyhoeddodd Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu'r Senedd yr adroddiad *Edrych ar ddatganoli darlledu: sut y gall Cymru gael y cyfryngau y mae eu hangen arni?* Mae'r adroddiad hwn yn adeiladu ar adroddiadau blaenorol, gan roi manylion pum mlynedd o waith yn y maes hwn, ynghyd â chraffu rheolaidd ar waith a wnaed gyda'r BBC, S4C, Ofcom ac eraill.

Roedd prif argymhellion yr adroddiad yn cynnwys yr angen am fwy o gyfrifoldebau darlledu i Gymru; sefydlu cronfa ganolog i gefnogi newyddiaduraeth , sy'n atebol ac yn cael ei darparu ar sail 'hyd braich'; datganoli pwerau i Gymru dros S4C; a materion eraill yn ymwneud â darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn y Gymraeg.

# Radio a sain

## Cyflwyniad


Oherwydd pandemig y coronafeirws a'r cyfyngiadau dilynol, gohiriodd corff mesur y diwydiant radio, RAJAR, ei waith maes o ddiwedd Ch1 2020. O ganlyniad, nid ydym ni'n gallu cyflwyno'r un faint o ddata am y defnydd o radio ag yn y gorffennol. Yn hytrach, rydym wedi defnyddio ymchwil defnyddwyr trydydd parti, syndicet ac Ofcom ei hun i roi cipolwg o'r defnydd o sain yn 2020, er y dylid nodi nad oes modd cymharu'r rhain yn uniongyrchol â RAJAR.

### Mae wyth o bob deg person yn gwrando ar y radio

Mae radio yn dal i fod yn boblogaidd yng Nghymru, gydag wyth o bob deg yn dweud eu bod wedi gwrando ar y radio yn ystod yr wythnos ddiwethaf. Mae gwasanaethau'r BBC a gwasanaethau masnachol yr un mor boblogaidd, y ddau un yn cyrraedd ychydig dros hanner yr holl oedolion. Mae gorsafoedd ledled y DU yn dal i wneud yn dda, a BBC Radio 2 yw'r orsaf fwyaf poblogaidd, yn ôl ymchwil a gynhaliwyd ym mis Mawrth 2021.

Mae'r canfyddiadau hyn yn gyson â'r ffigurau o flynyddoedd blaenorol a ddarparwyd gan RAJAR ond sydd ddim ar gael eleni am y rhesymau a amlinellwyd uchod.

**Ffigur 24: Ymgyrhaeddiad wythnosol gorsafoedd radio yng Nghymru: 2021**





*Ffynhonnell: Arolwg Sain Ofcom 2021. C2. Pa rai o'r gorsafoedd radio hyn, os o gwbl, rydych chi wedi gwrando arnyn nhw yn y 7 diwrnod diwethaf? n=-2287 Sylfaen: Oedolion 16 oed a hŷn ar-lein yn y DU, gwaith maes 3-7 Mawrth 2021*

## Mae un o bob pedwar oedolyn yng Nghymru yn gwrando ar bodlediadau

Gwrando ar y radio yw'r gweithgaredd sain mwyaf poblogaidd yng Nghymru o bell ffordd ac yna gwrando ar gerddoriaeth ar-lein, sy'n cael ei wneud gan lai na hanner oedolion Cymru bob wythnos. Mae un o bob pedwar oedolyn yng Nghymru yn gwrando ar bodlediadau bob wythnos.


**Ffigur 25: Sain y gwrandewir arno bob wythnos yng Nghymru**




*Ffynhonnell: Arolwg Sain Ofcom, Mawrth 2021.*
*C1. Pa mor aml, os o gwbl, ydych chi'n gwneud unrhyw un o'r canlynol? C2. Pa rai o'r gorsafoedd radio hyn, os o gwbl, rydych chi wedi gwrando arnyn nhw yn y 7 diwrnod diwethaf?*

YouTube yw'r llwyfan mwyaf poblogaidd ar gyfer gwrando ar unrhyw gynnwys sain ar-lein, mae'n cael ei ddefnyddio gan bron i ddwy o bob o bum oedolyn yng Nghymru.

**Ffigur 26: Llwyfannau a ddefnyddir bob wythnos ar gyfer unrhyw sain yng Nghymru**




*Ffynhonnell: Arolwg Sain Ofcom, Mawrth 2021.*

**Ofcom yn dyfarnu'r trwyddedau amlblecs radio DAB graddfa fach cyntaf yng Nghymru**

Bydd Caerdydd a'r Cymoedd bellach yn gallu cael amrywiaeth o wasanaethau radio newydd, ar ôl i Ofcom ddyfarnu trwyddedau amlblecs radio graddfa fach i Cardiff DAB Ltd a GTFM (South Wales) Ltd.

Bydd DAB ar raddfa fach yn ehangu'r ddarpariaeth radio digidol lleol ac yn sicrhau y bydd gwrandawyr yn yr ardal yn gallu gwrando ar amrywiaeth eang o wasanaethau radio ar y llwyfan darlledu sain ddigidol.

Bydd yn rhoi llwybr fforddiadwy i radio cymunedol, gorsafoedd radio masnachol llai a newydd-ddyfodiaid at radio digidol daearol, gan sicrhau bod amrywiaeth eang o wasanaethau radio yn parhau i fod ar gael ar lwyfan digidol sy'n cyfrif am fwy a mwy o wrando ar radio.

Dyfarnwyd y drwydded i GTFM (South Wales) Ltd weithredu'r amlblecs ar gyfer y Cymoedd ym mis Mawrth 2021; dyfarnwyd y drwydded i Cardiff DAB Ltd i weithredu'r amlblecs ar gyfer Caerdydd ym mis Mai 2021. Mae gan ymgeiswyr llwyddiannus 18 mis o ddyddiad y dyfarniad i lansio'r gwasanaeth.

Mae trwyddedau amlblecs yn cael eu hysbysebu gan Ofcom ar gyfer y Rhyl, Rhuthun a'r Wyddgrug, a Wrecsam (y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau yw 01 Medi). Bydd trwyddedau amlblecs yn cael eu hysbysebu tua diwedd y flwyddyn ar gyfer 25 lleoliad arall ar draws y DU, gan gynnwys Llandudno, Betws y Coed ac Abertawe.

Gall gwasanaeth amlblecs radio graddfa fach ddarparu tua deg gorsaf radio stereo (a thua 20 gwasanaeth stereo os yw DAB+ yn cael ei ddefnyddio).

## Mae gan bron i chwech o bob deg cartref yng Nghymru seinyddion clyfar

Mae llawer iawn o wrando digidol newydd yn cael ei wneud drwy seinyddion clyfar; mae gan bron i chwech o bob deg o'r cartrefi yng Nghymru seinyddion clyfar (57%). Yr Amazon Echo yw'r math mwyaf poblogaidd o bell ffordd (a welir mewn 72% o gartrefi Cymru sydd â seinydd clyfar).




Y ceisiadau mwyaf poblogaidd gan ddefnyddwyr oedd chwarae cerddoriaeth drwy wasanaeth ffrydio, fel ar Spotify (70%), neu wrando ar orsaf radio fyw ( 61%). Mae tua phedwar defnyddiwr o bob deg yng Nghymru yn defnyddio seinyddion clyfar i gael adroddiadau am y tywydd (41%), tra bod 36% yn eu defnyddio i chwilio am wybodaeth, 35% fel larwm/nodyn atgoffa personol a 25% ar gyfer adroddiadau newyddion.

Mae setiau radio DAB yn ffordd bwysig arall y mae pobl yn gwrando ar radio – mae gan 40% o gartrefi Cymru set DAB yn eu cartref, o'i gymharu â 39% yn yr Alban a 36% yng Ngogledd Iwerddon.[12]


### Radio cymunedol

Mae gorsafoedd radio cymunedol wedi rhoi llais cysurlon i filoedd o bobl yn ystod yr argyfwng iechyd cyhoeddus parhaus hwn yng Nghymru, ond mae llawer wedi wynebu anawsterau ariannol difrifol. Er mwyn ymateb i hynny, cyhoeddodd Llywodraeth y DU gyllid mewn argyfwng er mwyn eu helpu i dalu am gostau darparu rhaglenni hollbwysig i gymunedau lleol.

## Gostyngodd refeniw radio masnachol ar gyfer gorsafoedd lleol 29% yn 2020

Fe wnaeth gorsafoedd radio masnachol analog lleol yng Nghymru gynhyrchu £3.92 y pen o'r boblogaeth yn 2020, gostyngiad o 29% o'r flwyddyn flaenorol a'r isaf o holl wledydd y DU.

**Ffigur 27: Refeniw radio lleol/masnachol: 2020**




| | Newid o un flwyddyn i'r llall |
|---|---|
| **DU** | **-17%** |
| Lloegr | -16% |
| Yr Alban | -20% |
| Cymru | -29% |
| Gogledd Iwerddon | -10% |

Ffynhonnell: Ofcom/darlledwyr. Nodyn: Mae'r ffigurau hyn yn ymwneud yn gyfan gwbl â throsiant perthnasol a gofnodwyd yn erbyn trwyddedau analog (masnachol analog lleol) ac yn cynnwys refeniw a nawdd lleol a chenedlaethol h.y. nid refeniw sy'n ymwneud â hysbysebion sydd wedi'u hanelu at y wlad benodol yn unig. Addaswyd ffigurau o un flwyddyn i'r llall ar gyfer mynegai prisiau defnyddwyr yn defnyddio prisiau 2020.

*Ffynhonnell: Ofcom/darlledwyr. DS: Mae'r ffigurau hyn yn ymwneud yn llwyr â'r trosiant perthnasol a gofnodwyd ar gyfer trwyddedau analog (analog lleol masnachol) ac maent yn cynnwys refeniw lleol a chenedlaethol a nawdd h.y. nid dim ond y refeniw sy'n gysylltiedig â hysbysebion sydd wedi'u hanelu ar gyfer gwlad benodol. Ffigurau o flwyddyn i flwyddyn wedi'u haddasu ar gyfer CPI ar brisiau 2020..*

[12] Traciwr Technoleg 2021 Ofcom